OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 1565

# Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

## RHAN 6

RHEOLI GWEITHIAU A CHARTHU

**Goleuadau parhaol ar weithiau llanwol**

**51.**—(1) Ar ôl cwblhau gwaith llanwol rhaid i'r Comisiynwyr, bob nos rhwng machlud a chodiad haul ym mhen allanol eithaf y gwaith, ddangos y cyfryw oleuadau, os oes rhai, a chymryd y cyfryw gamau eraill, os oes rhai, i osgoi perygl i fordwyaeth, fel a gyfarwyddir o bryd i'w gilydd gan Trinity House.

(2) Os bydd y Comisiynwyr, mewn unrhyw fodd, yn peidio â chydymffurfio â chyfarwyddyd a roddir o dan baragraff (1), byddant yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'u collfarnu'n ddiannod, i ddirwy na fydd yn fwy na'r uchafswm statudol, ac o'u collfarnu ar dditiad, i ddirwy.